Cyllideb 2007

Yr hyn y mae'r Gyllideb yn ei olygu i Gymru

Mawrth 2007

TRYSORLYS EM

PU205 - Cymru.indd 4 1/5/07 13:48:24

Cyllideb 2007

Adeiladu dyfodol hirdymor Prydain:
Ffyniant a thegwch i deuluoedd

Amcan economaidd y Llywodraeth yw adeiladu economi cadarn a chymdeithas deg, lle mae cyfle a diogelwch i bawb. Mae Cyllideb 2007 yn cyflwyno sut mae'r Llywodraeth yn gweithio i gyrraedd y nod hwn, gan adeiladu ar lwyfan o sefydlogrwydd a thwf parhaus i sicrhau y gall y DU barhau i lwyddo yn yr economi byd-eang cynyddol gystadleuol. Mae'r daflen hon yn nodi'r hyn y mae'r Gyllideb yn ei olygu i Gymru.

Cynnal economi sefydlog

Disgwylir i economi'r byd barhau i fod yn gryf yn 2007. Sbardunwyd twf economaidd yn y DU gan gynnydd pellach mewn buddsoddiad busnes yn y DU, yn ogystal ag adferiad yn nhwf prif economïau Ewrop ac Asia y mae'r DU yn allforio iddynt. Mae diwygiadau economaidd y Llywodraeth wedi parhau i gynorthwyo'r DU i gynnal sefydlogrwydd macroeconomaidd trwy gydol y cyfnod hwn. Mae'r Gyllideb yn dangos:

- **y disgwylir i'r economi dyfu o gymaint â 2¾ i 3¼ y cant yn 2007,** a rhwng 2½ a 3 y cant yn 2008 a 2009, fel y rhagwelwyd yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol
- **y bydd chwyddiant yn parhau i fod yn isel a sefydlog;** ac
- **y bydd cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn gadarn** a bod y Llywodraeth ar y trywydd iawn i fodloni ei reolau cyllidol, a rhagwelir y bydd benthyca yn £35 biliwn yn 2006-07 ac y bydd dyled yn is nag yn yr Unol Daleithiau, Siapan, yr Eidal, Ffrainc a'r Almaen

Datganoli Prosesau Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r ffordd orau o wella cynhyrchiant gwledydd a rhanbarthau'r DU a goresgyn gwahaniaethau rhanbarthol o ran perfformiad economaidd yw rhoi'r rhyddid a'r hyblygrwydd i bob gwlad a rhanbarth i fanteisio ar ffynonellau twf lleol.

PU205 - Cymru.indd 5 1/5/07 13:48:27

Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu twf economaidd, cyflogaeth lawn a ffyniant i holl bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda'i gyrff partner busnes economaidd i annog datblygiad economaidd yng Nghymru, cefnogi cyflogaeth, entrepreneuriaeth, arloesi, sgiliau ac adfywio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei fframwaith strategol ar gyfer datblygiad economaidd, *Cymru: Economi yn Ffynnu*.

Hybu menter, arloesi a sgiliau

Mae gan Brydain lefelau cyflogaeth uchel, ond mae faint o allbwn a gynhyrchir gan bob gweithiwr - cynhyrchiant - wedi bod yn is yn hanesyddol na mewn economïau mawr eraill. Mae perfformiad cymharol Prydain wedi bod yn gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac mae cynhyrchiant bellach yn uwch nag yn yr Almaen ac yn agosáu at lefelau Ffrainc. Bydd economi hyblyg, mentrus a chyda sgiliau uchel o gymorth i sicrhau twf cyflymach mewn cynhyrchiant ac yn sicrhau bod y DU mewn sefyllfa dda i ffynnu yn yr economi byd-eang. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol o ran cynhyrchiant. Yn 2005, roedd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen yng Nghymru 22 y cant yn is na chyfartaledd y DU. Mae'r Gyllideb yn cyhoeddi mesurau newydd i wella cynhyrchiant yng Nghymru, yn cynnwys:

Cynhyrchiant – allbwn fesul gweithiwr



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

- **diwygiadau pwysig i'r system dreth gorfforaethol,** yn cynnwys gostyngiad yng nghyfradd bennawd y dreth gorfforaethol o 30 y cant i 28 y cant o fis Ebrill 2008 a chyfres o ddiwygiadau i symleiddio'r system lwfans cyfalaf;
- **gwelliannau pellach i gredydau treth ymchwil a datblygiad,** er mwyn annog arloesedd, gan gynnig cymorth i gwmnïau ac adeiladu ar y 140 o hawliadau credyd treth a wnaed yng Nghymru eisoes;

PU205 - Cymru.indd 6 1/5/07 13:48:28

- **cynnydd yn y gyfradd dreth i gwmnïau bychain i ymateb i achosion o unigolion yn ymgorffori'n artiffisial er mwyn talu cyn lleied o dreth â phosibl; a**
- **diwygiadau i leihau'r baich rheoleiddiol ar fusnes,** yn cynnwys mynd i'r afael â phryderon busnesau am faich datrys anghydfod yn y gweithle, a fyddai o bosibl o fudd i'r 175,000 o fusnesau yng Nghymru.

Datblygu cymdeithas decach

Nod y Llywodraeth yw datblygu cymdeithas decach lle gall pawb gyfrannu at ffyniant cenedlaethol cynyddol a rhannu manteision hynny. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phensiynwyr, darparu cymorth i deuluoedd â phlant a sicrhau bod pawb yn ddiogel yn eu henaint. Mae hefyd yn creu system dreth fodern a theg sy'n creu refeniw digonol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac yn sicrhau bod pawb yn talu eu cyfran deg o dreth. Mae Cyllideb 2007 yn cyhoeddi'r cam nesaf yn niwygiadau'r Llywodraeth i symleiddio'r system dreth, i gynorthwyo pensiynwyr a theuluoedd a gwneud i waith dalu. Bydd y Llywodraeth yn:

- **cael gwared ar gyfradd gychwynnol 10 ceiniog y dreth incwm a gostwng cyfradd sylfaenol treth incwm o 22 ceiniog i 20 ceiniog o fis Ebrill 2008.** Bydd hyn o fudd i tua 800,000 o gartrefi yng Nghymru;
- **cyfunioni'r systemau treth ac yswiriant gwladol,** gan godi'r pwynt hyd at le mae pobl yn talu cyfradd yswiriant gwladol uwch a'r pwynt hyd at le mae pobl yn dechrau talu treth gyfradd uwch, gan eu cyfunioni gyda'i gilydd ym mis Ebrill 2009;
- **cynyddu ymhellach elfen blant y Credyd Treth Plant o £150 y flwyddyn** i gynorthwyo teuluoedd gyda phlant, sydd o fudd posibl i 132,000 o deuluoedd sy'n derbyn Credyd Treth Plant yng Nghymru, a **chodi'r pwynt lle mae'r rhai sydd islaw'r pwynt hwnnw'n derbyn Credydau Treth Gwaith o £1,200** fel cymorth i wneud i waith dalu;
- **codi'r pwynt lle mae pobl 65 oed a hŷn yn dechrau talu treth incwm o £1,180 ym mis Ebrill 2008,** gan sicrhau bod 30,000 yn llai o'r rhai sy'n hŷn na 65 yn talu treth yng Nghymru. Erbyn mis Ebrill 2011, ni fydd unrhyw bensiynwr sy'n 75 mlwydd oed neu'n hŷn yn talu unrhyw dreth ar incwm dan £10,000;

PU205 - Cymru.indd 7 1/5/07 13:48:28

- **cynyddu'r cyfyngiad buddsoddi mewn Cyfrifon Cynilo Unigol o fis Ebrill 2008 i £7,200, a cheir cadw £3,600 ohono mewn arian parod;**
- **moderneiddio'r system dreth trwy ddiwygiadau pellach;** a chyflwyno nifer o fesurau i fynd i'r afael ag achosion o dwyll treth ac osgoi talu treth;
- **Cyflwyno mesurau i gefnogi'r trydydd sector,** gan gynnwys £80 miliwn mewn grantiau ar gyfer sefydliadau cymunedol; a
- **rhewi tollau gwirodydd a chynyddu tollau pob math arall o alcohol a thybaco, yn unol â chwyddiant.**

Cyfleoedd cyflogaeth i bawb

Nod hirdymor y Llywodraeth yw cyfleoedd cyflogaeth i bawb. Mae'n bwriadu hybu marchnad lafur ddeinamig a hyblyg lle mae cyfle i bawb wireddu eu potensial. Er 1997, mae'r Fargen Newydd wedi cynorthwyo 117,000 o bobl i gael swyddi yng Nghymru, ac wedi bod o gymorth i gynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n ei chael hi'n fwy anodd i ddod o hyd i swyddi, fel rhieni unigol a phobl â chyflwr iechyd neu anabledd. Yng Nghymru, mae cyflogaeth wedi cynyddu o 11 y cant yn ystod y cyfnod hwnnw ac mae diweithdra wedi gostwng 33.3 y cant.

Cyflwynwyd y Credyd Treth Gwaith ym mis Ebrill 2003, ac mae'n cynorthwyo i wneud i waith dalu i bobl sy'n derbyn incwm isel. Erbyn mis Rhagfyr 2006, roedd credydau treth yn cynorthwyo tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru. Bydd cyfradd yr lsafswm Cyflog Cenedlaethol i oedolion yn cynyddu i £5.52 yr awr o fis Hydref 2007 ymlaen, a bydd hynny o fudd i tua 50,000 o bobl sy'n derbyn yr isafswm cyflog yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn cymryd rhagor o gamau erbyn hyn, i ddarparu mwy o gyflogaeth ym mhob cwr o'r wlad, trwy:

Cyflogaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur (chwarter Mawrth-Mai, wedi'i addasu'n dymhorol)

PU205 - Cymru.indd 8 1/5/07 13:48:28

- barhau i ddarparu cymorth i rieni unigol sy'n dod o hyd i waith trwy **ymestyn y Credyd Mewn Gwaith £40 yr wythnos yn yr ardaloedd peilot presennol tan fis Mehefin 2008**, a bydd hynny o fudd i tua 5,300 o rieni unigol yng Nghymru;
- **cyflwyno partneriaethau cyflogaeth lleol gyda chyflogwyr manwerthu mawr yn gweithio gyda Chanolfannau Byd Gwaith** yn lleol i gynorthwyo pobl ddi-waith hirdymor a phobl economaidd anweithgar yn ôl i'rgwaith; a
- **chyflwyno estyniad o bedair wythnos i'r hawl i dderbyn Credydau Treth Gwaith,** gan leihau gordaliadau a sicrhau bod y newid o gredydau treth i fudd-daliadau'n fwy esmwyth.

Gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddarparu buddsoddiad newydd yng ngwasanaethau cyhoeddus Prydain. Bydd gwariant ar wasanaethau cyhoeddus £61 biliwn yn uwch erbyn 2007-08 o'i gymharu â 2004-05. Caiff tua 75 y cant o'r cynnydd hwn ei wario ar flaenoriaethau'r Llywodraeth ym maes addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai ac atal troseddau. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ac mae ar y trywydd iawn i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o dros £21 biliwn erbyn 2007-08, yn cynnwys 80,000 yn llai o swyddi gweinyddol yn y gwasanaeth sifil.

Bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 (CSR) yn cyflwyno cynlluniau a blaenoriaethau gwario'r Llywodraeth o 2008-09 i 2010-11 ac yn nodi pa fuddsoddiad a diwygiadau fydd eu hangen i baratoi'r DU ar gyfer y dyfodol. Yn ystod cyfnod y CSR, bydd yr uchelgais newydd o arbedion gwerth am arian o 3 y cant y flwyddyn mewn llywodraeth ganolog a lleol yn galluogi'r Llywodraeth i wella gwasanaethau rheng flaen ymhellach. Mae'r Gyllideb hon yn cyhoeddi:

- **rhoi £1001 miliwn ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru,** yn sgil cynnydd mewn gwariant a gyhoeddwyd ar gyfer adrannau'r Llywodraeth. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw penderfynu sut i ddyrannu'r cynnydd hwn;.
- **£86 miliwn ychwanegol i gryfhau'r frwydr yn erbyn terfysgaeth.**

Gwarchod yr amgylchedd

Mae'r Llywodraeth yn credu bod rhaid sicrhau ffyniant economaidd a gwarchod yr amgylchedd ar yr un pryd, er mwyn sicrhau ansawdd bywyd

PU205 - Cymru.indd 1 1/5/07 13:48:16

gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i chwarae rhan flaenllaw wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn ymroddedig i wella'r amgylchedd lleol yn nhrefi, dinasoedd a chefn gwlad y DU ac i hybu system drafnidiaeth effeithiol sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae Cyllideb 2007 yn cyhoeddi:

- **cynnydd o 2 geiniog y litr i dollau tanwydd o 1 Hydref 2007** a chyhoeddi cyfraddau ar gyfer y 2 flynedd ganlynol ymlaen llaw;
- **cynnydd i gyfraddau'r Doll Cerbydau Ecséis ar gyfer ceir** yn cynnwys cynyddu'r cyfraddau ar gyfer y ceir sy'n llygru fwyaf a gostwng y cyfraddau ar gyfer y ceir glanaf;
- o 1 Hydref 2007, ni fydd y rhai sy'n prynu **cartrefi di-garbon newydd sy'n costio hyd at £500,000 yn talu unrhyw dreth stamp**;
- mesurau i gynorthwyo **deiliaid cartrefi i gymryd camau cost effeithiol i wella perfformiad eu cartrefi o ran effeithlonrwydd ynni**;
- **cynnydd i gyfradd safonol treth tirlenwi o £8 y dunnell y flwyddyn** o 1 Ebrill 2008;
- **cynnydd chwyddiant yn unig i'r Ardoll Newid yn yr Hinsawdd o fis Ebrill 2008,** i annog effeithlonrwydd ynni yn y sector busnes; a
- **dyrannu £800 miliwn i'r gronfa gweddnewid amgylcheddol** i ariannu prosiectau datblygiad tramor.

Incwm cartrefi

- o ganlyniad i fesurau treth a budd-daliadau personol y Gyllideb hon, bydd cwpl ag un aelod yn ennill arian sydd â dau o blant ac yn ennill £27,000 y flwyddyn – y canolrif ar gyfer gweithwyr llawn amser – yn derbyn tua £500 y flwyddyn mewn gwirionedd erbyn mis Ebrill 2009.
- o ganlyniad i fesurau treth a budd-daliadau personol a gyflwynwyd ers 1997, erbyn mis Ebrill 2009, bydd teuluoedd yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn derbyn £1,250 y flwyddyn yn fwy mewn gwirionedd. Bydd teuluoedd â phlant, ar gyfartaledd, yn derbyn £2,150 y flwyddyn yn fwy mewn gwirionedd, tra bydd y rhai sydd ymhlith un rhan o bump tlotaf y boblogaeth, ar gyfartaledd, yn derbyn £3,650 y flwyddyn yn fwy.

PU205 - Cymru.indd 2 1/5/07 13:48:16

Lle mae arian trethdalwyr yn cael ei wario

Disgwylir mai tua £587 biliwn fydd cyfanswm gwariant cyhoeddus y DU yn ystod y flwyddyn nesaf, tua £9,650 ar gyfer pob dyn, menyw a phlentyn yn y DU. Disgwylir iddo godi i £615 biliwn yn 2008-09, £644 biliwn yn 2009-10 a £674 biliwn yn 2010-11. Mae'n cynnwys gwariant y gweinyddiaethau datganoledig.

Lle mae arian trethdalwyr yn cael ei wario



Cyfanswm gwariant a reolir -£587 biliwn

[1] Mae gwariant arall yn cynnwys gwariant ar wasanaethau cyhoeddus cyffredinol; hamdden, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithrediad a datblygiad rhyngwladol; pensiynau gwasanaethau cyhoeddus; yn ogystal â gwariant na ddyrannwyd eto a rhai addasiadau cyfrifo.

[2] Mae amddiffyniad cymdeithasol yn cynnwys taliadau credyd treth sy'n fwy nag atebolrwydd treth unigolyn.

Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi, 2007-08 rhagamcanion arian tymor byr. Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Tarddiad y trethi



Cyfanswm a dderbynnir - £553 biliwn

[1] Mae 'arall' yn cynnwys trethi cyfalaf, tollau stamp, tollau cerbydau ecséis a rhai derbynebau eraill a dderbynnir trwy dreth ac nad ydynt trwy dreth (e.e. llog a difidend).

Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi, rhagamcanion 2007-08. Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

I archebu rhagor o gopïau o'r daflen hon, neu wahanol fformat, ffoniwch: **020 7270 4558**
Am ragor o wybodaeth am Gyllideb 2007, ewch i wefan y Trysorlys yn: **hm-treasury.gov.uk**

© Hawlfraint y Goron 2007

PU205 - Cymru.indd 3 1/5/07 13:48:17